

**Cynllun Iaith Gymraeg
Cymdeithas Tai Newydd**

Cynllun iaith Gymraeg a baratowyd yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 (y Ddeddf) a'r Cod Rheoliadol ar gyfer Cymdeithasau Tai yng Nghymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Mawrth 2006.

Cymeradwywyd y Cynllun hwn gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg o dan adran 14(1) o'r Ddeddf ar 9 Ionawr 2012.

1. Datganiad Agoriadol

Nod y Cynllun:

Cymdeithas Tai Newydd yw is-gwmni Grŵp Tai Cadarn, ac fel yr aelod o'r Grŵp sydd mewn cyswllt â'r cyhoedd, dirprwywyd y cyfrifoldeb am sefydlu Cynllun Iaith Gymraeg i'r Gymdeithas. Bydd Grŵp Tai Cadarn yn cydymffurfio â'r cynllun hwn.

Mae Newydd wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd, wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal. Mae'r cynllun hwn yn nodi sut y byddwn yn gweithredu'r egwyddor honno wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.

Amcanion:

- galluogi pawb sy'n defnyddio gwasanaeth neu sydd mewn trafodaethau â'r Gymdeithas i wneud hynny drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg yn ôl dewis personol yr unigolyn
- sicrhau bod y gwasanaethau sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg yn wasanaethau o safon uchel

Mae'r Gymdeithas yn cydnabod y gall aelodau o'r cyhoedd fynegi eu barn ac anghenion yn well yn eu hiaith ddewisol. Mae hefyd yn cydnabod bod galluogi'r cyhoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn fater o arfer da yn hytrach na goddefiad, ac y gallai gwadu'r hawl iddynt ddefnyddio'u hiaith ddewisol eu gosod mewn sefyllfa o anfantais. Felly bydd y Gymdeithas yn cynnig yr hawl i'r cyhoedd ddewis pa iaith i'w defnyddio wrth ymdrin â'r Gymdeithas, yn unol â'r egwyddor uchod.

2. Cyflwyniad

Cefndir

Cymdeithas Tai Newydd yw is-gwmni Grŵp Tai Cadarn, a sefydlwyd yn 1974 gyda'r nod o ddarparu llety fforddiadwy, o safon uchel.

Ers hynny, mae'r sefydliad wedi sefydlu'i hun fel un o'r prif gymdeithasau tai yng Nghymru sy'n darparu llety i'w rentu a'i werthu, yn ogystal â nifer o wasanaethau sy'n gysylltiedig â thai. Dyma fu rhai o'r cerrig milltir allweddol yn ein datblygiad:

- Parhau i ddatblygu tai newydd i bobl sengl, teuluoedd a phobl hŷn
- Gweithredu gwasanaeth Gofal a Thrwsio ym Mro Morgannwg sy'n cynnig amrywiaeth o wasanaethau cymorth i berchnogion tai a thenantiaid hŷn
- Derbyn dros 400 o gartrefi ar ystad Glyn-taf ger Pontypridd gan yr awdurdod lleol a llwyddo i gwblhau rhaglen gwelliannau gwerth miliynau o bunnoedd
- Sefydlu strwythur grŵp yn 1998 gyda Grŵp Tai Cadarn fel y rhiant gwmni a Chymdeithas Tai Newydd fel is-gwmni er mwyn sicrhau hyblygrwydd, hunaniaeth glir ac effeithlonrwydd
- Darparu gwasanaethau technoleg gwybodaeth i gleientiaid allanol yn cynnwys cynnyrch meddalwedd ar gyfer y sectorau tai a gofal
- Derbyn trosglwyddiad Cymdeithas Tai'r Drenewydd yn 2006 a thros 200 o gartrefi wedi'u rhentu yn y Drenewydd, Powys
- Aelod o Integrate (rhwydwaith o gymdeithasau tai) er mwyn darparu dull cydweithredol o gyflwyno'r rhaglen grant tai cymdeithasol yn effeithiol a sicrhau'r arbedion caffael a'r ansawdd gorau posibl

Mae'r Grŵp bellach yn darparu 2,600 o gartrefi mewn 10 ardal awdurdod lleol yng Nghymru, yn ogystal ag amrywiaeth o wasanaethau tai.

Mae Grŵp Tai Cadarn yn cynnwys Cadarn a Chymdeithas Tai Newydd.

Cadarn

Rhiant y Grŵp sy'n darparu cymorth a gwasanaethau canolog i Newydd a gwasanaethau amrywiol i gwsmeriaid allanol:

- Gwasanaethau TG
- Gwasanaethau cynnal a chadw
- Gwasanaethau rheoli prosiect
- Gwasanaethau adnoddau dynol

- Gwasanaethau corfforaethol

Newydd

Is-gwmni'r Grŵp sy'n darparu gwasanaethau landlord a gwasanaethau tai ledled y de a'r canolbarth:

- Tai i'w rhentu
- Tai i'w gwerthu am bris isel
- Cyngor ar dai
- Tai gwarchod
- Gwasanaethau Gofal a Thrwsio
- Gwasanaethau datblygu cymunedol
- Gwasanaethau prydlesu i'r digartref
- Llety gyda gofal a chymorth

Erys y Grŵp yn ffyddlon i'w egwyddorion dielw, a'i brif ffocws yw sicrhau'r budd mwyaf posibl i'r gymuned. Mae strwythur y Grŵp yn galluogi ymagwedd hyblyg tuag at gyflawni'r genhadaeth hon ar sail y sgiliau, yr adnoddau a'r arbenigedd sydd ar gael iddo.

Mae Cymdeithas Tai Newydd yn cyflawni'r rhan helaeth o rôl cymdeithas dai drwy fod yn berchen ar dai a'u rheoli a gwasanaethau cysylltiedig ynghyd ag amrywiaeth o fentrau cymunedol. Fodd bynnag, fel endid corfforaethol, mae Grŵp Tai Cadarn yn gweithredu fel busnes cymdeithasol arloesol i fynd i'r afael ag amcanion strategol ehangach na chymdeithas dai draddodiadol. Mae'r amcanion hyn yn cynnwys cefnogi twf a llwyddiant yr economi gymdeithasol drwy ddarparu gwasanaethau cymorth i'r sector busnes cymdeithasol.

Strwythur ac Ardal Gweithredu

Llywodraethir y Grŵp gan aelodau gwirfoddol y Bwrdd sy'n cyfarfod yn rheolaidd i benderfynu ar strategaeth, monitro perfformiad a datblygu'r busnes. Mae Pwyllgor Archwilio yn arolygu'r systemau rheolaeth fewnol. Mae Cadarn a Newydd yn gweithredu Byrddau ar wahân gyda hawliau enwebu i sicrhau'r rheolaeth a'r cydlynid gofynnol.

Mae Newydd yn gweithredu o'i swyddfeydd cofrestredig yn Coryton, tra darperir gwasanaethau rheng flaen i denantiaid a'r cyhoedd o bell a thrwy gyfleusterau canolfannau cyhoeddus yn y Barri, Pontypridd, y Drenewydd, Aberdâr, Glyn-nedd a Phenarth.

Lleolir cartrefi yn yr ardaloedd awdurdod lleol canlynol:

Awdurdod Lleol	Rhent Fforddiadwy	Perchenogaeth Cartref Fforddiadwy	Tai a Reolir o dan Gytundebau Rheoli	Llety â Chymorth a Ddarperir gan Bartneriaid
Caerffili		9		
Caerdydd	31	12		
Sir Gaerfyrddin		1		
Ceredigion		10		
Merthyr Tudful		5		
Castell-nedd Port Talbot	67	4		
Powys	218	6		
Rhondda Cynon Taf	768	16		14
Torfaen	38			
Bro Morgannwg	1323	81	317	26
Cyfanswm	2445	144	317	40

Defnyddwyr Gwasanaethau

Mae defnyddwyr gwasanaethau yn perthyn i sawl prif gategori:

- Tenantiaid a phrydleswyr sy'n byw mewn cartrefi dan berchnogaeth neu dan reolaeth (lleolir dros 90% o'r rhain ym Mro Morgannwg, Powys a Rhondda Cynon Taf).
- Aelodau o'r cyhoedd sy'n chwilio am lety neu gyngor ar opsiynau tai.
- Pobl hŷn sy'n chwilio am gyngor a chymorth gan ein cynllun Gofal a Thrwsio ym Mro Morgannwg.
- Sefydliadau allanol yng Nghymru a thu hwnt sy'n defnyddio gwasanaethau megis technoleg gwybodaeth a phensaerniaeth.

Yr Iaith Gymraeg

Rydym yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd mewn 11 ardal awdurdod lleol, gyda phresenoldeb sylweddol ym mhump o'r rhain, sef Bro Morgannwg, Rhondda Cynon Taf, Castell-nedd Port Talbot, Caerdydd a Phowys. Er ein bod yn gweithredu ledled Cymru, y tu allan i'r ardaloedd awdurdod lleol hyn darperir gwasanaethau i sefydliadau eraill, neu drwyddynt, yn hytrach nag yn uniongyrchol i'r cyhoedd.

Mae cyfrifiad 2001 yn darparu'r darlun diweddaraf o faterion yn ymwneud â'r iaith Gymraeg yng Nghymru.

Dangosir nifer y bobl dros 3 oed sy'n gallu siarad Cymraeg yn y tabl isod:

Ardal Awdurdod Lleol	%
Bro Morgannwg	11.3
Rhondda Cynon Taf	12.5
Castell-nedd Port Talbot	18.0
Caerdydd	11.0
Caerffili	11.2
Merthyr Tudful	10.2
Powys	21.1
Cymru Gyfan	20.8

I roi'r canrannau hyn yn eu cyd-destun, o fewn y pum ardal awdurdod lleol lle mae gan y Grŵp rôl gwasanaeth cyhoeddus sylweddol ceir dros 120,000 o bobl sy'n gallu siarad Cymraeg. Yn ogystal, dengys ffigurau'r cyfrifiad bod y nifer fwyaf o siaradwyr Cymraeg yn yr ystod oedran 3 i 19 oed gyda dirywiad sydyn ymysg y grwpiau oedran hŷn. Er enghraifft, ym Mro Morgannwg mae 37.2% o bobl ifanc 15 oed yn gallu siarad Cymraeg ond dim ond 5.4% o bobl yn eu 50'au sy'n medru'r iaith. Yn amlwg dengys hyn effaith gwersi Cymraeg mewn ysgolion a bodolaeth ysgolion cyfrwng Cymraeg, ac felly gellir tybio y bydd y defnydd o'r Gymraeg, a'r galw am wasanaethau Cymraeg, yn cynyddu dros amser.

Yn ein harolwg diweddaraf o denantiaid a gynhaliwyd yn ystod Haf 2010, dewisodd 6% o'r ymatebwyr yr opsiwn "Cymraeg" mewn ymateb i'r cwestiwn: Ym mha fformat neu iaith yr hoffech dderbyn gwybodaeth? Dim ond gwybodaeth oddi wrth denantiaid sy'n dewis ymateb a gesglir yn yr arolwg felly ni ellir ei defnyddio i gynllunio'r gwasanaethau a ddarperir i bob tenant yn unigol. Mae ymarfer mawr yn mynd rhagddo i wella dealltwriaeth o denantiaid er mwyn sicrhau y gellir darparu gwasanaethau wedi'u teilwra yn seiliedig ar anghenion a dewisiadau personol. Bydd yr ymarfer hwn yn gwella gwybodaeth am ddewisiadau iaith tenantiaid ac aelodau o'r cartref.

Rydym hefyd yn adolygu gallu ein staff i ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg yn flynyddol. Yn ein hadolygiad diweddaraf o sgiliau Cymraeg a gynhaliwyd yn ystod haf 2010, nodwyd saith siaradwr Cymraeg penodedig yn ein swyddfa yn Coryton. Yn ôl y cynllun, mae'n ofynnol bod siaradwr Cymraeg penodedig yn gyfrifol am y dderbynfa ym mhob swyddfa. Ar hyn o bryd, mae bwlch yn ein swyddfa yn y Drenewydd (lle nad yw'r tîm o dri o staff yn cynnwys unrhyw siaradwyr Cymraeg). Yn ogystal â'r saith siaradwr Cymraeg penodedig, mae wyth aelod arall o staff sydd â lefelau amrywiol o allu yn y Gymraeg. Mae un o'r rhain wedi bod yn mynychu hyfforddiant yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac mae un arall wrthi'n dysgu o hyd.

Mae rhestr o siaradwyr Cymraeg sy'n fodlon cynorthwyo gyda darparu gwasanaethau rheng flaen, cyfieithu neu gyfieithu ar y pryd ar gael i'n holl staff ar ein mewnwyd. Mae'r fewnwyd hefyd yn adnodd ar gyfer cyfieithu ac ynganu geiriau ac ymadroddion cyffredin.

Mae cynllun gweithredu Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Cymru ddwyieithog (Iaith Pawb) yn nodi tri llinyn y strategaeth fel a ganlyn:

1. Fframwaith Polisi Cenedlaethol, gyda Llywodraeth y Cynulliad yn pennu'r agenda polisi ac yn darparu arweiniad strategol i gynnal ac annog twf y Gymraeg
2. Yr Iaith a'r Gymuned, sy'n canolbwyntio ar bolisiau a chymau gweithredu sy'n hyrwyddo cymunedau sy'n gynaliadwy yn economaidd ac yn gymdeithasol ledled Cymru, yn cynnwys y cymunedau hynny lle siaredir y Gymraeg yn helaeth o fewn y gymuned
3. Yr Iaith a Hawliau'r Unigolyn, sy'n canolbwyntio ar hawliau a chyfrifoldebau'r unigolyn. Bydd polisiau Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i annog unigolion i ddysgu Cymraeg ac i'w hwyluso a'u grymuso i ddefnyddio'r iaith ym mhob agwedd ar fywyd yng Nghymru.

Mae Cymdeithas Tai Newydd yn ymrwymedig i gefnogi egwyddorion Iaith Pawb drwy weithredu'r Cynllun Iaith Gymraeg hwn.

Y Prif Weithredwr yw'r enw cyswllt ar gyfer y Cynllun Iaith Gymraeg hwn, a gellir cysylltu ag ef yn y swyddfa gofrestrddig yn Nhŷ Cadarn, 5 Village Way, Tongwynlais, Caerdydd CF15 7NE, ffôn 0870 242 0673 neu e-bost enquiries@newydd.co.uk

3. Cynllunio a Darparu Gwasanaethau

3.1 Polisiâu a Mentrau

3.1.1 Wrth lunio polisiâu a mentrau newydd, neu wrth ddiwygio polisiâu, bydd y Gymdeithas yn asesu eu heffaith ieithyddol ac yn sicrhau eu bod yn gyson â'r Cynllun Iaith hwn, ac yn sicrhau y gweithredir y mesurau yn y Cynllun pan weithredir polisiâu a mentrau newydd.

3.1.2 Bydd y Gymdeithas yn ymgynghori ymlaen llaw â Bwrdd yr Iaith Gymraeg o ran unrhyw gynig a fyddai'n cael effaith uniongyrchol ar y Cynllun Iaith hwn. Ni chaiff y Cynllun hwn ei ddiwygio heb gytundeb ymlaen llaw Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

3.1.3 Byddwn yn sicrhau bod pwy bynnag sy'n ymwneud â llunio polisiâu yn ymwybodol o'r Cynllun a chyfrifoldebau'r Gymdeithas o dan y Cod Rheoliadol a Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.

3.2 Darparu Gwasanaethau

3.2.1 Byddwn yn sicrhau bod cynifer o'n gwasanaethau â phosibl ar gael yn Gymraeg, a byddwn yn hysbysu'r cyhoedd pan fyddant ar gael.

3.2.2 Bydd y Gymdeithas yn cyflawni'r ymrwymadau a nodwyd yn y Cynllun drwy weithredu'r trefniadau canlynol

- trefnu'r tîm gwasanaeth fel bod staff sy'n siarad Cymraeg yn gallu ymdrin â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg;
- galluogi swyddogion sy'n gallu siarad Cymraeg o un swyddfa i gynorthwyo swyddfa arall pan fydd angen;
- mabwysiadu systemau neu weithdrefnau sy'n hwyluso darparu gwasanaeth yn iaith ddewisol yr unigolyn sy'n derbyn y gwasanaeth;
- defnyddio cyfieithwyr proffesiynol;
- codi ymwybyddiaeth o'r Cynllun Iaith ymysg staff y Gymdeithas;
- ystyried yr angen i gynyddu argaeledd sgiliau iaith Gymraeg drwy hyfforddiant a recriwtio.

3.3 Gwasanaethau a ddarperir ar gyfer y cyhoedd gan sefydliadau eraill

Swyddogaethau rheoliadol a gwasanaethau trydydd parti

3.3.1 Bydd unrhyw gontractau neu drefniadau a wneir gyda thrydydd parti yn gyson ag adrannau perthnasol o'r Cynllun hwn.

Partneriaethau

3.3.2 Mae'r Gymdeithas yn gweithio mewn partneriaeth â chyrff cyhoeddus, sefydliadau o'r sector gwirfoddol ac asiantaethau eraill. Rydym yn gweithredu ar sawl lefel wrth weithio gydag eraill:

- pan mai'r Gymdeithas yw'r arweinydd strategol ac ariannol mewn partneriaeth, bydd yn sicrhau bod y ddarpariaeth o wasanaethau cyhoeddus yn cydymffurfio â'r Cynllun Iaith
- pan fydd y Gymdeithas yn ymuno â phartneriaeth a arweinir gan gorff arall, bydd mewnbyn y Gymdeithas i'r bartneriaeth yn cydymffurfio â'r Cynllun Iaith a bydd y Gymdeithas yn annog y partïon eraill i gydymffurfio

3.3.3 Bydd y Gymdeithas yn sicrhau bod swyddogion yn ymwybodol o ofynion y Cynllun Iaith wrth weithredu'r bartneriaeth.

3.4 Safonau Ansawdd

3.4.1 Bydd gwasanaethau a ddarperir yn Gymraeg a Saesneg o ansawdd cyfartal a chânt eu darparu o fewn yr un amserlen.

3.4.2 Rydym yn ymrwymedig i gyfathrebu â chwsmeriaid yn y fformat a'r iaith o'u dewis hwy. Bydd pob dogfen a gyhoeddir ar ôl cymeradwyo'r Cynllun hwn yn cynnwys y datganiad canlynol:

Os bydd angen cyfleusterau cyfieithu neu wybodaeth arnoch mewn ieithoedd neu fformatau eraill, yn cynnwys Cymraeg, Braille, print bras neu ar CD neu dâp yna maent ar gael ar gais. Gallwch hefyd ddefnyddio'n gwasanaeth Llinell Iaith i siarad â rhywun yn eich iaith ddewisol. Gofynnwch am fanylion.

Dangosir y datganiad hwn mewn sawl iaith, yn cynnwys Cymraeg, yn nerbynfeydd ein swyddfeydd sydd ar agor i'r cyhoedd.

4. Ymdrin â'r Cyhoedd sy'n siarad Cymraeg

4.1 Gohebiaeth

4.1.1 Mae'r Gymdeithas yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg.

4.1.2 Ymdrinnir â'r holl ohebiaeth yn brydlon, ac ni ddylai gohebiaeth drwy gyfrwng y Gymraeg achosi oedi ynddi'i hun.

4.1.3 Pan fydd rhywun yn ysgrifennu atom yn Gymraeg, byddwn yn darparu ateb yn Gymraeg (os bydd angen ateb).

4.1.4 Yn dilyn sgwrs dros y ffôn neu wyneb yn wyneb drwy gyfrwng y Gymraeg, neu gyfarfod lle y cadarnhawyd mai'r Gymraeg yw iaith ddewisol yr unigolyn, bydd yr holl ohebiaeth yn Gymraeg.

4.1.5 Os oes rhaid cyhoeddi fersiwn Gymraeg a Saesneg ar wahân o unrhyw ohebiaeth, ein harfer safonol fydd sicrhau bod y ddwy fersiwn ar gael ar yr un pryd ac am yr un pris (os yn berthnasol).

4.1.6 Byddwn yn cadw cofnod o'r bobl sy'n dymuno ymdrin â'r Gymdeithas yn Gymraeg.

4.1.7 Byddwn yn cytuno ar drefniadau ar gyfer gohebiaeth ac ar gyfer trefnu cyfieithiadau.

4.2 Cyfathrebu dros y ffôn

4.2.1 Mae'r Gymdeithas yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg, a'n harfer safonol yw sicrhau y gall y cyhoedd siarad yn Gymraeg neu Saesneg wrth ymdrin â ni dros y ffôn.

4.2.2 Er mwyn cyflawni'r nod o drin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal, byddwn yn cymryd y camau canlynol i alluogi siaradwyr Cymraeg i ymdrin â'r Gymdeithas yn Gymraeg dros y ffôn:

- sicrhau bod gennym swyddogion rheng flaen/derbynfa dwyieithog, drwy hyfforddiant/recrwtio
- darparu cyfeiriadur mewnol o siaradwyr Cymraeg y gellir trosglwyddo galwadau iddynt
- darparu canllawiau i staff ar sut i ymdrin â galwadau ffôn gan siaradwyr Cymraeg a sicrhau eu bod yn gyfarwydd â'r trefniadau

4.3 Cyfarfodydd Cyhoeddus

4.3.1 Pan fydd y Gymdeithas yn cynnal cyfarfodydd cyhoeddus, yn cynnwys cynadleddau a digwyddiadau eraill tebyg, bydd croeso i'r sawl sy'n bresennol gyfrannu yn Gymraeg neu Saesneg. Bydd amgylchiadau lle y bydd yn briodol, ar sail

gywbodaeth, i gynnal yr holl weithgareddau yn ddwyieithog, yn Gymraeg yn unig neu yn Saesneg yn unig.

4.3.2 Byddwn yn gwahodd y sawl a fydd yn bresennol i hysbysu'r trefnwyr p'un a ydynt yn dymuno defnyddio Cymraeg neu Saesneg.

4.3.3 Bydd y trefnydd yn asesu p'un a oes angen cyfleusterau cyfieithu. Yn ogystal ag ystyried p'un a hysbyswyd y Gymdeithas o iaith ddewisol y sawl a fydd yn bresennol, bydd ef/hi yn ystyried lleoliad y digwyddiad, pwy sy'n debygol o fod yn bresennol, a'r pwnc dan sylw.

4.3.4 Pan fydd siaradwyr Cymraeg ymysg y gwahoddedigion, neu os yw'n hysbys bod siaradwyr Cymraeg yn bwriadu bod yn bresennol, dylid trefnu cyfleusterau cyfieithu.

4.3.5 Ar sail gofynion y sawl a fydd yn bresennol, gellir darparu deunydd ysgrifenedig megis taflenni neu ddogfennau eraill a ddefnyddir mewn cyfarfodydd cyhoeddus yn ddwyieithog.

4.3.6 Yn ogystal ag offer cyfieithu, byddwn yn asesu'r angen i aelodau o staff sy'n siarad Cymraeg fod yn bresennol i groesawu'r cyhoedd ac ymdrin â'u hymholiadau. Bydd ein staff yn dangos eu gallu ieithyddol yn amlwg mewn cyfarfodydd, er enghraifft, drwy groesawu pobl yn ddwyieithog a gwisgo bathodynau "Iaith Gwaith" Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

4.4 Cyfarfodydd Eraill

4.4.1 Mae'r Gymdeithas yn croesawu cyfarfodydd â'r cyhoedd yn Gymraeg neu Saesneg, ond oherwydd prinder siaradwyr Cymraeg, ni allwn warantu cyfarfod wyneb yn wyneb yn Gymraeg. Mewn amgylchiadau o'r fath byddwn yn egluro'r sefyllfa'n gwrtais ac yn cynnig opsiynau eraill, megis trefnu cyfieithiad neu barhau â'r cyfarfod yn Saesneg.

4.4.2 Os yw'n amlwg bod galw cyson am gyfarfodydd wyneb yn wyneb yn Gymraeg, a'n bod yn methu â bodloni'r galw hwnnw, byddwn yn ystyried cymryd camau megis hyfforddi neu benodi staff dwyieithog.

4.5 Dulliau eraill o gyfathrebu â'r cyhoedd

4.5.1 Byddwn yn ystyried y ffyrdd gorau o ddiwallu anghenion siaradwyr Cymraeg ym mha ffordd bynnag y byddwn yn ymdrin â'r cyhoedd.

4.5.2 Mae'r Gymdeithas yn ymrwymedig i alluogi'r cyhoedd i ymdrin â ni yn Gymraeg drwy ddulliau cyfathrebu electronig, ar-lein neu gyfryngau eraill.

5. Wyneb Cyhoeddus y Gymdeithas

5.1 Hunaniaeth Gorfforaethol

5.1.1 Mae'r Gymdeithas wedi mabwysiadu a chyflwyno hunaniaeth hollol ddwyieithog.

5.2 Arwyddion

5.2.1 Pan fyddwn yn adnewyddu neu'n ailgodi unrhyw arwyddion, byddwn yn sicrhau bod y fersiynau newydd yn hollol ddwyieithog. Bydd arwyddion a godir am y tro cyntaf yn hollol ddwyieithog.

5.2.2 Bydd maint, safon eglurdeb ac amlygrwydd y geiriau ar yr arwyddion yn parchu'r egwyddor o gydraddoldeb iaith.

5.2.3 Bydd yn arfer safonol i'r Gymdeithas ddarparu arwyddion dwyieithog, ond ar achlysuron pan ddarperir arwyddion Cymraeg a Saesneg ar wahân, byddant yn gyfartal o ran ffurf, maint, ansawdd, eglurdeb ac amlygrwydd.

5.3 Cyhoeddi ac Argraffu Deunyddiau

5.3.1 Byddwn yn cynhyrchu dogfennau a anelwyd at y cyhoedd yn gyffredinol ar ffurf ddwyieithog.

5.3.2 Pan gyhoeddir dogfen sydd â phris, ni fydd pris fersiwn Gymraeg o'r ddogfen yn uwch na phris y fersiwn Saesneg.

5.3.3 Byddwn yn sicrhau bod staff a'r sawl sy'n gyfrifol am argraffu yn ymwybodol o'r polisi a'r gweithdrefnau ar gyfer cyhoeddi dogfennau.

5.3.4 Bydd ein gwefan yn Saesneg ond bydd dogfennau dwyieithog a gyhoeddir ar ein gwefan ar gael mewn ffurf ddwyieithog ar ein gwefan, a bydd y wefan yn cynnwys copi Cymraeg o'r cynllun hwn ac eglurhad o sut i gael gwasanaethau a gwybodaeth yn Gymraeg. Ein bwriad yw i ddarparu mwy o gynnwys Cymraeg ar ein gwefan a dros amser symud tuag at gwefan ddwyieithog lawn.

5.3.5 Byddwn yn sicrhau bod y testun Cymraeg yn ein cyhoeddiadau o safon uchel a bod y dôn yn briodol ar gyfer y gynulleidfa darged.

5.4 Ffurflenni a deunyddiau eglurhaol

5.4.1 Byddwn yn cynhyrchu ffurflenni dwyieithog pan fydd yn rhesymol ymarferol ac yn briodol o dan yr amgylchiadau.

5.4.2 Pan fyddwn yn cynhyrchu ffurflenni dwyieithog, ein harfer safonol fydd cynhyrchu ffurflenni dwyieithog gyda'r ddwy iaith yn ymddangos gyda'i gilydd yn yr un ddogfen.

5.4.3 Mewn rhai achosion (efallai oherwydd natur gymhleth ffurflen) ni fydd yn ymarferol cynhyrchu fersiwn ddwyieithog, a gall fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân fod yn fwy priodol. Mewn achosion o'r fath, dylai'r fersiynau Cymraeg a Saesneg:

- gael eu cyhoeddi ar yr un pryd
- bod mor hawdd i gael gafael arnynt â'i gilydd mewn swyddfeydd a chanolfannau dosbarthu eraill
- cael eu dosbarthu gyda'i gilydd
- cynnwys neges sy'n cadarnhau bod y ffurflen hefyd ar gael yn yr iaith arall.

5.4.4 Bydd y Gymdeithas yn ceisio cadarnhau iaith ddewisol aelodau o'r cyhoedd drwy gynnwys cwestiwn "dewis iaith" ar y ffurflen gyntaf mewn cyfres. Unwaith y gwyddys iaith ddewisol unigolyn, byddwn yn dosbarthu deunydd yn Gymraeg, Saesneg neu'n ddwyieithog o hynny ymlaen, fel sy'n briodol.

5.4.5 Byddwn yn sicrhau bod cysondeb o ran termau yn arfer rheolaidd wrth lunio ffurflenni.

5.5 Datganiadau i'r Wasg

5.5.1 Mae datganiadau i'r wasg yn rhan amlwg o wyneb cyhoeddus y Gymdeithas. Oherwydd yr ardaloedd daearyddol lle rydym yn gweithio'n bennaf, y wasg Saesneg fydd prif dderbynwyr ein datganiadau i'r wasg. Anfonir datganiadau i'r wasg yn Gymraeg i'r cyfryngau Cymraeg fel sy'n briodol o dan yr amgylchiadau.

5.6 Ymgyrchoedd Marchnata a Chyhoeddusrwydd

5.6.1 Bydd ein hymgyrchoedd marchnata yn cydymffurfio â'r adrannau perthnasol o'r Cynllun hwn.

5.7 Hysbysiadau Swyddogol, Hysbysiadau Cyhoeddus a Hysbysebion Recriwtio Staff

5.7.1 Bydd ein hysbysiadau swyddogol a chyhoeddus yn ddwyieithog pan fydd yn briodol o dan yr amgylchiadau. Byddant yn gyfartal o ran ffurf, maint, ansawdd, eglurdeb ac amlygrwydd.

5.7.2 Caiff pecynnau gwybodaeth, megis disgrifiadau swydd a manylebau person eu paratoi yn Gymraeg a Saesneg ar gyfer pob swydd lle mae sgiliau iaith Gymraeg yn hanfodol.

5.7.3 Pan fyddwn yn defnyddio'r wasg Gymraeg i hysbysebu, bydd ein hysbysebion yn ymddangos yn Gymraeg yn unig yn y cyhoeddiadau hynny.

5.7.4 Bydd hysbysebion ar gyfer swyddi lle mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol yn ymddangos yn Gymraeg ym mhob cyhoeddiad, gyda nodyn eglurhaol yn Saesneg ar gyfer cyhoeddiadau Saesneg neu ddwyieithog.

6. Gweithredu ac Adolygu'r Cynllun

6.1 Staffio

6.1.1 Bydd y Gymdeithas yn gwneud trefniadau i sicrhau, i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol, bod gan weithleoedd sydd mewn cysylltiad â'r cyhoedd staff ar gael sy'n meddu ar y sgiliau Cymraeg priodol i alluogi'r gweithleoedd hynny i ddarparu gwasanaeth yn Gymraeg. Bydd y graddau y bydd hyn yn angenrheidiol neu'n bosibl yn amrywio, yn dibynnu ar y gwasanaeth ac ar yr ardal.

6.1.2 Byddwn yn ymateb i unrhyw ddiffyg sgiliau drwy recriwtio a hyfforddi, neu drwy ystyried y posibilrwydd o adleoli staff yn fewnol.

6.1.3 Byddwn yn gosod gofynion iaith Gymraeg (dymunol neu hanfodol) ar rai swyddi, drwy ystyried y ffactorau canlynol:

- Maint ac amllder y cyswllt â'r cyhoedd
- Gallu presennol yr uned neu'r swyddfa i ddarparu gwasanaeth wyneb yn wyneb drwy gyfrwng y Gymraeg
- Arbenigedd y swydd, h.y. gallai sgiliau Cymraeg fod yn hanfodol mewn rhai meysydd penodol
- Os yw swydd mewn ardal ddaearyddol benodol, ar asesiad o nifer/canran y siaradwyr Cymraeg yn yr ardal.

6.1.4 Wrth asesu ein hanghenion staffio, byddwn yn darparu ar gyfer cynnydd posibl yn y galw am wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg wrth i gynlluniau gael eu gweithredu ac wrth i siaradwyr Cymraeg ymateb i'r cynnig o wasanaeth Cymraeg.

6.2 Recriwtio

6.2.1 Pan fydd yn ddymunol neu'n hanfodol y dylai ymgeisydd feddu ar sgiliau Cymraeg, caiff hyn ei nodi'n glir yn adran gymwysterau'r swydd ac mewn hysbysebion. Byddwn hefyd yn nodi lefel y cymhwysedd sy'n ofynnol ar gyfer y swydd, er enghraifft "i fod yn siaradwr Cymraeg rhugl".

6.2.2 Os caiff ymgeisydd nad yw'n gallu siarad Cymraeg ei benodi i swydd lle yr ystyrir bod y gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol, yna bydd y gallu i ddysgu'r iaith, hyd at lefel sgiliau benodol, o fewn cyfnod rhesymol o amser i'w gytuno, yn un o amodau'r penodiad. Caiff cynnydd tuag at gyflawni'r targed ei fonitro'n rheolaidd ac, yn unol â threfniadau rheoli perfformiad y sefydliad, darperir cymorth ychwanegol neu cymerir camau gweithredu priodol eraill.

6.3. Hyfforddiant Cymraeg

6.3.1 Byddwn yn cefnogi'r Cynllun Iaith hwn drwy annog a chefnogi aelodau o staff i ddysgu Cymraeg neu wella'u sgiliau Cymraeg.

6.3.2 Byddwn yn cynllunio ein rhaglen hyfforddi yn ofalus ac yn canolbwyntio adnoddau ar y rhannau hynny o'n gwasanaeth lle ceir cyfathrebu rheolaidd â siaradwyr Cymraeg, neu pan fydd gofynion ieithyddol i'r swydd.

6.3.3 Bydd geiriaduron a deunyddiau electronig ar gael i helpu aelodau o staff sy'n dysgu Cymraeg.

6.3.4 Bydd y Gymdeithas hefyd yn darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth ar gyfer staff o ran gofynion y Cynllun hwn. Ein harfer safonol fydd cynnwys hyfforddiant o'r fath wrth sefydlu staff newydd.

6.4 Hyfforddiant Galwedigaethol

6.4.1 Bydd rheolwyr adnoddau dynol a staff sydd â chyfrifoldeb am hyfforddiant yn asesu'r angen am hyfforddiant galwedigaethol penodol drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer staff.

6.5 Trefniadau Gweinyddol

6.5.1 Mae gan y Cynllun hwn awdurdod, cefnogaeth a chymeradwyaeth lawn y Bwrdd Rheoli. Y Prif Weithredwr sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am weithredu'r Cynllun Iaith, ac mae gan bob aelod o staff gyfrifoldeb i wybod sut i weithredu'r Cynllun yn effeithiol.

6.5.2 Bydd rheolwyr yn gyfrifol am weithredu'r agweddau hynny ar y Cynllun sy'n berthnasol i'w gwaith.

6.5.3 Er mwyn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle byddwn yn darparu adnoddau megis geiriaduron, meddalwedd terminoleg Cymraeg a meddalwedd cyfrwng Cymraeg arall ar gyfer staff.

6.6 Adolygu Gweithrediad y Cynllun

6.6.1 Yr uwch swyddog canlynol sy'n gyfrifol am fonitro ac adolygu'r Cynllun hwn:

Y Prif Weithredwr, Grŵp Tai Cadarn, Tŷ Cadarn, 5 Village Way, Tongwynlais, Caerdydd CF15 7NE, ffôn 02920 629364 neu e-bost enquiries@cadarn.co.uk

6.6.2 Bydd monitro'r Cynllun hwn yn weithgaredd parhaus a strwythuredig. Bydd hyn yn cynnwys monitro'r meysydd canlynol:

- cydymffurfiaeth â'r Cynllun
- ansawdd gwasanaeth - ystyried cwynion a'r gwasanaeth rheng flaen

- rheoli a gweinyddu
- digonolrwydd sgiliau ieithyddol - yn seiliedig ar ymrwymadau 6.1-6.4
- prif ffrydio

6.6.3 Byddwn yn defnyddio gweithdrefn gwynion safonol y Gymdeithas i gofnodi unrhyw gwynion am y Cynllun hwn ac ymdrin â hwy, ac yn sicrhau y bydd yn bosibl monitro cwynion penodol am y Cynllun.

6.6.4 Bydd y Prif Weithredwr yn cyflwyno adroddiad i'r Bwrdd yn flynyddol a bydd yn anfon copi o'r adroddiad i Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Bydd yr adroddiad yn dilyn fformat y cytunwyd arno â'r Bwrdd a bydd yn cynnwys gwybodaeth am natur unrhyw gwynion ac awgrymiadau ar gyfer gwella a dderbyniwyd gan y cyhoedd o ran y Cynllun.

6.7 Cyhoeddi Gwybodaeth

6.7.1 Byddwn yn cynnwys datganiad yn ein hadroddiad blynyddol yn nodi lle gall aelodau o'r cyhoedd gael copi o'n hadroddiad monitro blynyddol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

6.8 Cyhoeddusrwydd

6.8.1 Byddwn yn sicrhau bod aelodau o'r cyhoedd sy'n ymdrin â'r Gymdeithas yn gwybod am y Cynllun hwn a'i gynnwys, a sut y gallant ymdrin â'r Gymdeithas yn Gymraeg.

6.8.2 Bydd ein dulliau o roi cyhoeddusrwydd i'r Cynllun a'i gynnwys yn dilyn ein trefniadau cyhoeddusrwydd corfforaethol arferol, a bydd yn cynnwys sicrhau y caiff y Cynllun ei gyhoeddi mewn lle amlwg ar ein gwefan.

6.8.3 Byddwn yn sicrhau bod staff ac asiantaethau'r Gymdeithas yn gyfarwydd â'r mesurau a gynhwysir yn y Cynllun er mwyn sicrhau y telir sylw i'r mesurau pan fydd hynny'n briodol.

CYNLLUN IAITH GYMRAEG
CYNLLUN GWEITHREDU

Ymrwymiad y Cynllun	Camau a Gymerwyd	Camau sydd eu Hangen	Terfyn amser
<p>3.1 Polisiâu a Mentrau</p> <p>3.1.1 Wrth lunio polisiâu a mentrau newydd, neu wrth ddiwygio polisiâu, bydd y Gymdeithas yn asesu eu heffaith ieithyddol ac yn sicrhau eu bod yn gyson â'r Cynllun iaith hwn, ac yn sicrhau y gweithredir y mesurau yn y Cynllun pan weithredir polisiâu a mentrau newydd.</p> <p>3.1.2 Bydd y Gymdeithas yn ymgynghori ymlaen llaw â Bwrdd yr Iaith Gymraeg o ran unrhyw gynnig a fyddai'n cael effaith uniongyrchol ar y Cynllun iaith hwn. Ni chaiff y Cynllun hwn ei ddiwygio heb gytundeb ymlaen llaw Bwrdd yr Iaith Gymraeg.</p> <p>3.1.3 Byddwn yn sicrhau bod pwy bynnag sy'n ymwneud â llunio polisiâu yn ymwybodol o'r Cynllun a chyfrifoldebau'r Gymdeithas o dan y Cod Rheoliadol a Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.</p>	<p>Mae pob polisi yn cynnwys adran ar gydymffurfiaeth â'r Cynllun iaith Gymraeg. Hysbyswyd pob aelod o staff sy'n gyfrifol am adolygu polisiâu am ofynion y Cynllun.</p> <p>Yn 2009, roedd pob polisi yn destun Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb gan gynnwys iaith.</p>		
<p>3.2 Darparu Gwasanaethau</p> <p>3.2.1 Byddwn yn sicrhau bod cynifer o'n gwasanaethau â phosibl ar gael yn Gymraeg, a byddwn yn hysbysu'r cyhoedd pan fyddant ar gael.</p>	<p>Mae pob aelod o staff yn ymwybodol o'n staff sy'n siarad Cymraeg. Caiff yr holl wybodaeth sydd ar gael i'r</p>	<p>Byddwn yn adolygu'r canllawiau i staff sydd ar ein mewnwyd ar ddarparu gwasanaethau yn</p>	<p>Ebrill 2012</p>

<p>3.2.2 Bydd y Gymdeithas yn cyflawni'r ymrwymïadau a nodwyd yn y Cynllun drwy weithredu'r trefniadau canlynol</p> <ul style="list-style-type: none"> • trefnu'r tîm gwasanaeth fel bod staff sy'n siarad Cymraeg yn gallu ymdrin â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg; • galluogi swyddogion sy'n gallu siarad Cymraeg o un swyddfa i gynorthwyo swyddfa arall pan fydd angen; • mabwysïadu systemau neu weithdrefnau sy'n hwyluso darparu gwasanaeth yn iaith ddewisol yr unigolyn sy'n derbyn y gwasanaeth; • defnyddio cyfieithwyr proffesiynol; • codi ymwybyddïaeth o'r Cynllun iaith ymysg staff y Gymdeithas; • ystyried yr angen i gynyddu argaeledd sgiliau iaith Gymraeg drwy hyfforddiant a recriwtio. 	<p>cyhoedd ei chyhoeddi'n ddwyieithog a'i rhoi ar ein gwefan.</p> <p>Mae ein mewnrwyd yn cynnwys tudalen sy'n rhoi canllawiau ar sut i ymdrin â chwsmerïaid sy'n siarad Cymraeg a chanllawiau i'r rheini sydd am ddysgu sgiliau Cymraeg.</p> <p>Nodir bod sgiliau Cymraeg yn rhinwedd hanfodol neu ddymunol yn y fanyleb person ar gyfer swyddi allweddol.</p>	<p>Gymraeg.</p>	
<p>3.3 Gwasanaethau a ddarperir ar gyfer y cyhoedd gan sefydliadau eraill</p> <p>Swyddogaethau rheoliadol a gwasanaethau trydydd parti</p> <p>3.3.1 Bydd unrhyw gontractau neu drefniadau a wneir gyda thrydydd parti yn gyson ag adrannau perthnasol o'r Cynllun hwn.</p>	<p>Cyrff cyhoeddus yw llawer o'n partnerïaid, sydd â'u Cynlluniau iaith Gymraeg eu hunain. Pan rydym yn gweithio gyda phartnerïaid eraill, rydym yn sicrhau eu bod yn ymwybodol bod yn</p>	<p>Adolygu partnerïaethau a chontractau allweddol i sicrhau bod ein hymrwymïadau o ran yr iaith Gymraeg yn cael eu cyflawni</p>	<p>Ebrill 2012</p>

<p>Partneriaethau</p> <p>3.3.2 Mae'r Gymdeithas yn gweithio mewn partneriaeth â chyrrff cyhoeddus, sefydliadau o'r sector gwirfoddol ac asiantaethau eraill. Rydym yn gweithredu ar sawl lefel wrth weithio gydag eraill:</p> <ul style="list-style-type: none"> • pan mai'r Gymdeithas yw'r arweinydd strategol ac ariannol mewn partneriaeth, bydd yn sicrhau bod y ddarpariaeth o wasanaethau cyhoeddus yn cydymffurfio â'r Cynllun Iaith • pan fydd y Gymdeithas yn ymuno â phartneriaeth a arweinir gan gorff arall, bydd mewnbwn y Gymdeithas i'r bartneriaeth yn cydymffurfio â'r Cynllun Iaith a bydd y Gymdeithas yn annog y partiön eraill i gydymffurfio <p>3.3.3 Bydd y Gymdeithas yn sicrhau bod swyddogion yn ymwybodol o ofynion y Cynllun Iaith wrth weithredu'r bartneriaeth.</p>	<p>rhaid iddynt gydymffurfio â'n cynllun ac yn rhoi canllawiau fel y bo angen i sicrhau y gallant wneud hynny.</p>		
<p>3.4 Safonau Ansawdd</p> <p>3.4.1 Bydd gwasanaethau a ddarperir yn Gymraeg a Saesneg o ansawdd cyfartal a chânt eu darparu o fewn yr un amserlen.</p> <p>3.4.2 Rydym yn ymrwymedig i gyfathrebu â chwsmeriaid yn y fformat a'r iaith o'u dewis hwy. Bydd pob dogfen a gyhoeddir ar ôl cymeradwyo'r Cynllun hwn yn cynnwys y datganiad canlynol:</p>	<p>Mae pob dogfen gyhoeddedig yn cynnwys y datganiad o ran iaith a fformat a dangosir hwn mewn derbynfydd.</p>	<p>Nodwyd rhai enghreifftiau o ddiffyg cydymffurfiaeth. Mae angen monitro'r ymrwymiad hwn.</p>	<p>Mawrth 2012</p>

<p><i>Os bydd angen cyfleusterau cyfieithu neu wybodaeth arnoch mewn ieithoedd neu fformatau eraill, yn cynnwys Cymraeg, Braille, print bras neu ar CD neu dâp yna maent ar gael ar gais. Gallwch hefyd ddefnyddio'n gwasanaeth Llinell Iaith i siarad â rhywun yn eich iaith ddewisol. Gofynnwch am fanylion.</i></p> <p>Dangosir y datganiad hwn mewn sawl iaith, yn cynnwys Cymraeg, yn nerbynfeydd ein swyddfeydd sydd ar agor i'r cyhoedd.</p>			
<p>4.1 Gohebiaeth</p> <p>4.1.1 Mae'r Gymdeithas yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg.</p> <p>4.1.2 Ymdrinnir â'r holl ohebiaeth yn brydlon, ac ni ddylai gohebiaeth drwy gyfrwng y Gymraeg achosi oedi ynddi'i hun.</p> <p>4.1.3 Pan fydd rhywun yn ysgrifennu atom yn Gymraeg, byddwn yn darparu ateb yn Gymraeg (os bydd angen ateb).</p> <p>4.1.4 Yn dilyn sgwrs dros y ffôn neu wyneb yn wyneb drwy gyfrwng y Gymraeg, neu gyfarfod lle y cadarnhawyd mai'r Gymraeg yw iaith ddewisol yr unigolyn, bydd yr holl ohebiaeth yn Gymraeg.</p> <p>4.1.5 Os oes rhaid cyhoeddi fersiwn Gymraeg a</p>	<p>Rydym yn cydymffurfio â'r ymrwymïadau hyn ar hyn o bryd. Mae trefniadau cyfieithu ar waith ac mae gennym safonau gwasanaeth cwsmeriaid cyson ar gyfer pob cwsmer beth bynnag fo'i ddewis iaith.</p> <p>Rydym yn cadw rhestr o bob tenant sydd am ymdrin â ni yn Gymraeg, ac mae hon ar gael i bob aelod o staff. Caiff y rhestr hon ei hadolygu wrth i denantiaethau newid a'i diweddarau fel rhan o'n</p>	<p>Parhau i nodi dewisiadau iaith tenantiaid drwy gasglu barn tenantiaid.</p>	<p>Yn mynd rhagddo</p>

<p>Saesneg ar wahân o unrhyw ohebiaeth, ein harfer safonol fydd sicrhau bod y ddwy fersiwn ar gael ar yr un pryd ac am yr un pris (os yn berthnasol).</p> <p>4.1.6 Byddwn yn cadw cofnod o'r bobl sy'n dymuno ymdrin â'r Gymdeithas yn Gymraeg.</p> <p>4.1.7 Byddwn yn cytuno ar drefniadau ar gyfer gohebiaeth ac ar gyfer trefnu cyfieithiadau.</p>	<p>harolwg blynyddol o denantiaid.</p>		
<p>4.2 Cyfathrebu dros y ffôn</p> <p>4.2.1 Mae'r Gymdeithas yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg, a'n harfer safonol yw sicrhau y gall y cyhoedd siarad yn Gymraeg neu Saesneg wrth ymdrin â ni dros y ffôn.</p> <p>4.2.2 Er mwyn cyflawni'r nod o drin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal, byddwn yn cymryd y camau canlynol i alluogi siaradwyr Cymraeg i ymdrin â'r Gymdeithas yn Gymraeg dros y ffôn:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ sicrhau bod gennym swyddogion rheng flaen/derbynfa dwyieithog, drwy hyfforddiant/recrwtio ▪ darparu cyfeiriadur mewnol o siaradwyr Cymraeg y gellir trosglwyddo galwadau iddynt ▪ darparu canllawiau i staff ar sut i ymdrin â galwadau ffôn gan siaradwyr Cymraeg a sicrhau eu bod yn gyfarwydd â'r trefniadau 	<p>Mae pob aelod o staff yn ymwybodol o'n staff sy'n siarad Cymraeg. Caiff yr holl wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd ei chyhoeddi'n ddwyieithog a'i rhoi ar ein gwefan.</p> <p>Mae ein mewnwyd yn cynnwys tudalen sy'n rhoi canllawiau ar sut i ymdrin â chwsmeriaid sy'n siarad Cymraeg a chanllawiau i'r rheini sydd am ddysgu sgiliau Cymraeg.</p> <p>Nodir bod sgiliau Cymraeg yn rhinwedd hanfodol neu ddymunol yn y fanyleb person ar gyfer swyddi</p>	<p>Byddwn yn parhau i brofi ein perfformiad wrth ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg drwy gwsmeriaid cudd</p>	<p>Mehefin 2012</p>

	allweddol.		
<p>4.3 Cyfarfodydd Cyhoeddus</p> <p>4.3.1 Pan fydd y Gymdeithas yn cynnal cyfarfodydd cyhoeddus, yn cynnwys cynadleddau a digwyddiadau eraill tebyg, bydd croeso i'r sawl sy'n bresennol gyfrannu yn Gymraeg neu Saesneg. Bydd amgylchiadau lle y bydd yn briodol, ar sail gwybodaeth, i gynnal yr holl weithgareddau yn ddwyieithog, yn Gymraeg yn unig neu yn Saesneg yn unig.</p> <p>4.3.2 Byddwn yn gwahodd y sawl a fydd yn bresennol i hysbysu'r trefnwyr p'un a ydynt yn dymuno defnyddio Cymraeg neu Saesneg.</p> <p>4.3.3 Bydd y trefnydd yn asesu p'un a oes angen cyfleusterau cyfieithu. Yn ogystal ag ystyried p'un a hysbyswyd y Gymdeithas o iaith ddewisol y sawl a fydd yn bresennol, bydd ef/hi yn ystyried lleoliad y digwyddiad, pwy sy'n debygol o fod yn bresennol, a'r pwnc dan sylw.</p> <p>4.3.4 Pan fydd siaradwyr Cymraeg ymysg y gwahoddedigion, neu os yw'n hysbys bod siaradwyr Cymraeg yn bwriadu bod yn bresennol, dylid trefnu cyfleusterau cyfieithu.</p> <p>4.3.5 Ar sail gofynion y sawl a fydd yn bresennol, gellir darparu deunydd ysgrifenedig megis taflenni neu ddogfennau eraill a ddefnyddir mewn cyfarfodydd cyhoeddus yn ddwyieithog.</p>	<p>Gofynnir am ddewis iaith pan fyddwn yn gwahodd pobl i gyfarfodydd cyhoeddus (e.e. ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol). Rydym yn sicrhau bod staff sy'n siarad Cymraeg ar gael a'u bod yn gwisgo bathodynau "Iaith Gwaith". Caiff posteri eu harddangos mewn mannau amlwg mewn digwyddiadau cyhoeddus i sicrhau bod pobl yn gwybod bod croeso iddynt gyfathrebu yn Gymraeg.</p>		

<p>4.3.6 Yn ogystal ag offer cyfieithu, byddwn yn asesu'r angen i aelodau o staff sy'n siarad Cymraeg fod yn bresennol i groesawu'r cyhoedd ac ymdrin â'u hymholiadau. Bydd ein staff yn dangos eu gallu ieithyddol yn amlwg mewn cyfarfodydd, er enghraifft, drwy groesawu pobl yn ddwyieithog a gwisgo bathodynau "laith Gwaith" Bwrdd yr Iaith Gymraeg.</p>			
<p>4.4 Cyfarfodydd Eraill</p> <p>4.4.1 Mae'r Gymdeithas yn croesawu cyfarfodydd â'r cyhoedd yn Gymraeg neu Saesneg, ond oherwydd prinder siaradwyr Cymraeg, ni allwn warantu cyfarfod wyneb yn wyneb yn Gymraeg. Mewn amgylchiadau o'r fath byddwn yn egluro'r sefyllfa'n gwrtais ac yn cynnig opsiynau eraill, megis trefnu cyfieithiad neu barhau â'r cyfarfod yn Saesneg.</p> <p>4.4.2 Os yw'n amlwg bod galw cyson am gyfarfodydd wyneb yn wyneb yn Gymraeg, a'n bod yn methu â bodloni'r galw hwnnw, byddwn yn ystyried cymryd camau megis hyfforddi neu benodi staff dwyieithog.</p>	<p>Ar hyn o bryd, dim ond nifer fach o geisiadau a wneir am gyfarfodydd yn Gymraeg.</p>		
<p>4.5 Dulliau eraill o gyfathrebu â'r cyhoedd</p> <p>4.5.1 Byddwn yn ystyried y ffyrdd gorau o ddiwallu anghenion siaradwyr Cymraeg ym mha ffordd bynnag y byddwn yn ymdrin â'r cyhoedd.</p> <p>4.5.2 Mae'r Gymdeithas yn ymrwymedig i alluogi'r cyhoedd i ymdrin â ni yn Gymraeg drwy ddulliau</p>	<p>Caiff dogfennau cyhoeddus allweddol eu cynhyrchu'n ddwyieithog ar gyfer y siaradwyr Cymraeg a nodwyd a'u cyhoeddi ar-lein.</p>		

cyfathrebu electronig, ar-lein neu gyfryngau eraill.			
--	--	--	--

<p>5.1 Hunaniaeth Gorfforaethol</p> <p>5.1.1 Mae'r Gymdeithas wedi mabwysiadu a chyflwyno hunaniaeth hollol ddwyieithog.</p>	<p>Mae ein hunaniaeth yn ddwyieithog.</p>		
<p>5.2 Arwyddion</p> <p>5.2.1 Pan fyddwn yn adnewyddu neu'n ailgodi unrhyw arwyddion, byddwn yn sicrhau bod y fersiynau newydd yn hollol ddwyieithog. Bydd arwyddion a godir am y tro cyntaf yn hollol ddwyieithog.</p> <p>5.2.2 Bydd maint, safon eglurdeb ac amlygrwydd y geiriau ar yr arwyddion yn parhau'r egwyddor o gydraddoldeb iaith.</p> <p>5.2.3 Bydd yn arfer safonol i'r Gymdeithas ddarparu arwyddion dwyieithog, ond ar achlysuron pan ddarperir arwyddion Cymraeg a Saesneg ar wahân, byddant yn gyfartal o ran ffurf, maint, ansawdd, eglurdeb ac amlygrwydd.</p>	<p>Mae pob arwydd yn ddwyieithog neu'n gyfartal o ran ffurf, maint, ansawdd, eglurdeb ac amlygrwydd.</p>	<p>Byddwn yn parhau i adolygu ein cydymffurfiaeth â'r ymrwymiad hwn</p>	<p>Ebrill 2012</p>
<p>5.3 Cyhoeddi ac Argraffu Deunyddiau</p> <p>5.3.1 Byddwn yn cynhyrchu dogfennau a anelwyd at y cyhoedd yn gyffredinol ar ffurf ddwyieithog.</p> <p>5.3.2 Pan gyhoeddir dogfen sydd â phris, ni fydd pris fersiwn Gymraeg y ddogfen yn uwch na phris y fersiwn Saesneg.</p>	<p>Darparwn ddogfennau cyhoeddedig yn Gymraeg i'r rheini sydd wedi gofyn am wybodaeth yn Gymraeg, heb unrhyw dâl ychwanegol. Cyhoeddir pob dogfen Gymraeg ar ein gwefan gan</p>		

<p>5.3.3 Byddwn yn sicrhau bod staff a'r sawl sy'n gyfrifol am argraffu yn ymwybodol o'r polisi a'r gweithdrefnau ar gyfer cyhoeddi dogfennau.</p> <p>5.3.4 Bydd ein gwefan yn Saesneg ond bydd dogfennau dwyieithog a gyhoeddir ar ein gwefan ar gael mewn ffurf ddwyieithog ar ein gwefan, a bydd y wefan yn cynnwys copi Cymraeg o'r cynllun hwn ac eglurhad o sut i gael gwasanaethau a gwybodaeth yn Gymraeg. Ein bwriad yw i ddarparu mwy o gynnwys Cymraeg ar ein gwefan a dros amser symud tuag at gwefan ddwyieithog lawn.</p> <p>5.3.5 Byddwn yn sicrhau bod y testun Cymraeg yn ein cyhoeddiadau o safon uchel a bod y dôn yn briodol ar gyfer y gynulleidfa darged.</p>	<p>gynnwys y Cynllun Iaith Gymraeg yn Gymraeg.</p>	<p>Fe fyddem yn cynyddu'r cynnwys Cymraeg ar ein gwefan yn y tymor byr.</p> <p>Fe fyddem yn mabwysiadu gwefan ddwyieithog lawn.</p>	<p>Ebrill 2013</p> <p>Ebrill 2015</p>
<p>5.4 Ffurflenni a deunyddiau eglurhaol</p> <p>5.4.1 Byddwn yn cynhyrchu ffurflenni dwyieithog pan fydd yn rhesymol ymarferol ac yn briodol o dan yr amgylchiadau.</p> <p>5.4.2 Pan fyddwn yn cynhyrchu ffurflenni dwyieithog, ein harfer safonol fydd cynhyrchu ffurflenni dwyieithog gyda'r ddwy iaith yn ymddangos gyda'i gilydd yn yr un ddogfen.</p> <p>5.4.3 Mewn rhai achosion (efallai oherwydd natur gymhleth ffurflen) ni fydd yn ymarferol cynhyrchu fersiwn ddwyieithog, a gall fersiynau Cymraeg a</p>	<p>Rydym yn llunio ffurflenni dwyieithog neu rai ar wahân yn y ddwy iaith. Mae pob ffurflen yn cynnwys ein datganiad ynghylch iaith a fformat.</p>	<p>Byddwn yn adolygu ein holl ffurflenni i sicrhau cydymffurfiaeth â'r ymrwymiad hwn.</p>	<p>Ebrill 2012</p>

<p>Saesneg ar wahân fod yn fwy priodol. Mewn achosion o'r fath, dylai'r fersiynau Cymraeg a Saesneg:</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ gael eu cyhoeddi ar yr un pryd ○ bod mor hawdd i gael gafael arnynt â'i gilydd mewn swyddfeydd a chanolfannau dosbarthu eraill ○ cael eu dosbarthu gyda'i gilydd ○ cynnwys neges sy'n cadarnhau bod y ffurflen hefyd ar gael yn yr iaith arall. <p>5.4.4 Bydd y Gymdeithas yn ceisio cadarnhau iaith ddewisol aelodau o'r cyhoedd drwy gynnwys cwestiwn "dewis iaith" ar y ffurflen gyntaf mewn cyfres. Unwaith y gwyddys iaith ddewisol unigolyn, byddwn yn dosbarthu deunydd yn Gymraeg, Saesneg neu'n ddwyieithog o hynny ymlaen, fel sy'n briodol.</p> <p>5.4.5 Byddwn yn sicrhau bod cysondeb o ran termau yn arfer rheolaidd wrth lunio ffurflenni.</p>			
<p>5.5 Datganiadau i'r Wasg</p> <p>5.5.1 Mae datganiadau i'r wasg yn rhan amlwg o wyneb cyhoeddus y Gymdeithas. Oherwydd yr ardaloedd daearyddol lle rydym yn gweithio'n bennaf, y wasg Saesneg fydd prif dderbynwyr ein datganiadau i'r wasg. Anfonir datganiadau i'r wasg yn Gymraeg i'r cyfryngau Cymraeg fel sy'n briodol o dan yr amgylchiadau.</p>	<p>Nid ydym wedi cyhoeddi unrhyw ddatganiadau i'r wasg i'r cyfryngau Cymraeg ond gallwn wneud hynny os bydd angen.</p>		

--	--	--	--

<p>5.6 Ymgyrchoedd Marchnata a Chyhoeddusrwydd</p> <p>5.6.1 Bydd ein hymgyrchoedd marchnata yn cydymffurfio â'r adrannau perthnasol o'r Cynllun hwn.</p>	<p>Rydym yn parhau i gydymffurfio â'r ymrwymiad hwn</p>		
<p>5.7 Hysbysiadau Swyddogol, Hysbysiadau Cyhoeddus a Hysbysebion Recriwtio Staff</p> <p>5.7.1 Bydd ein hysbysiadau swyddogol a chyhoeddus yn ddwyieithog pan fydd yn briodol o dan yr amgylchiadau. Byddant yn gyfartal o ran ffurf, maint, ansawdd, eglurdeb ac amlygrwydd.</p> <p>5.7.2 Caiff pecynnau gwybodaeth, megis disgrifiadau swydd a manylebau person eu paratoi yn Gymraeg a Saesneg ar gyfer pob swydd lle mae sgiliau iaith Gymraeg yn hanfodol.</p> <p>5.7.3 Pan fyddwn yn defnyddio'r wasg Gymraeg i hysbysebu, bydd ein hysbysebion yn ymddangos yn Gymraeg yn unig yn y cyhoeddiadau hynny.</p> <p>5.7.4 Bydd hysbysebion ar gyfer swyddi lle mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol yn ymddangos yn Gymraeg ym mhob cyhoeddiad, gyda nodyn eglurhaol yn Saesneg ar gyfer cyhoeddiadau Saesneg neu ddwyieithog.</p>	<p>Mae ein gweithdrefnau recriwtio yn cydymffurfio â'r ymrwymadau hyn. Hysbysebir swyddi lle mae sgiliau Cymraeg yn ofyniad hanfodol yn Gymraeg.</p> <p>Cynhyrchir pecynnau recriwtio yn Gymraeg hefyd ar gyfer swyddi lle mae sgiliau Cymraeg yn ofynnol.</p>		
<p>6.1 Staffio</p> <p>6.1.1 Bydd y Gymdeithas yn gwneud trefniadau i</p>	<p>Rydym yn adolygu gallu ein</p>	<p>Parhau i adolygu sgiliau</p>	<p>Medi 2012</p>

<p>sicrhau, i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol, bod gan weithleoedd sydd mewn cysylltiad â'r cyhoedd staff ar gael sy'n meddu ar y sgiliau Cymraeg priodol i alluogi'r gweithleoedd hynny i ddarparu gwasanaeth yn Gymraeg. Bydd y graddau y bydd hyn yn angenrheidiol neu'n bosibl yn amrywio, yn dibynnu ar y gwasanaeth ac ar yr ardal.</p> <p>6.1.2 Byddwn yn ymateb i unrhyw ddiffyg sgiliau drwy recriwtio a hyfforddi, neu drwy ystyried y posibilrwydd o adleoli staff yn fewnol.</p> <p>6.1.3 Byddwn yn gosod gofynion iaith Gymraeg (dymunol neu hanfodol) ar rai swyddi, drwy ystyried y ffactorau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Maint ac amllder y cyswllt â'r cyhoedd • Gallu presennol yr uned neu'r swyddfa i ddarparu gwasanaeth wyneb yn wyneb drwy gyfrwng y Gymraeg • Arbenigedd y swydd, h.y. gallai sgiliau Cymraeg fod yn hanfodol mewn rhai meysydd penodol • Os yw swydd mewn ardal ddaearyddol benodol, ar asesiad o nifer/canran y siaradwyr Cymraeg yn yr ardal. <p>6.1.4 Wrth asesu ein hanghenion staffio, byddwn yn darparu ar gyfer cynnydd posibl yn y galw am wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg wrth i</p>	<p>staff o ran sgiliau Cymraeg yn flynyddol ac yn nodi unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth i'w llenwi drwy recriwtio neu hyfforddi. Rydym hefyd yn adolygu'r gofynion o ran yr iaith Gymraeg ar gyfer pob swydd wrth iddi fynd yn wag.</p>	<p>Cymraeg staff yn flynyddol a cheisio llenwi bylchau drwy recriwtio neu hyfforddi.</p>	
---	---	--	--

<p>gynlluniau gael eu gweithredu ac wrth i siaradwyr Cymraeg ymateb i'r cynnig o wasanaeth Cymraeg.</p>			
<p>6.2 Recriwtio</p> <p>6.2.1 Pan fydd yn ddymunol neu'n hanfodol y dylai ymgeisydd feddu ar sgiliau Cymraeg, caiff hyn ei nodi'n glir yn adran gymwysterau'r swydd ac mewn hysbysebion. Byddwn hefyd yn nodi lefel y cymhwysedd sy'n ofynnol ar gyfer y swydd, er enghraifft "i fod yn siaradwr Cymraeg rhugl".</p> <p>6.2.2 Os caiff ymgeisydd nad yw'n gallu siarad Cymraeg ei benodi i swydd lle yr ystyrir bod y gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol, yna bydd y gallu i ddysgu'r iaith, hyd at lefel sgiliau benodol, o fewn cyfnod rhesymol o amser i'w gytuno, yn un o amodau'r penodiad. Caiff cynnydd tuag at gyflawni'r targed ei fonitro'n rheolaidd ac, yn unol â threfniadau rheoli perfformiad y sefydliad, darperir cymorth ychwanegol neu cymerir camau gweithredu priodol eraill.</p>	<p>Mae ein gweithdrefnau recriwtio yn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r ymrwymiad hwn. Os bydd dysgwyr Cymraeg mewn swyddi lle mae sgiliau Cymraeg yn ofynnol caiff eu cynnydd ei fonitro.</p>		
<p>6.3. Hyfforddiant Cymraeg</p> <p>6.3.1 Byddwn yn cefnogi'r Cynllun Iaith hwn drwy annog a chefnogi aelodau o staff i ddysgu Cymraeg neu wella'u sgiliau Cymraeg.</p> <p>6.3.2 Byddwn yn cynllunio ein rhaglen hyfforddi yn ofalus ac yn canolbwyntio adnoddau ar y rhannau hynny o'n gwasanaeth lle ceir cyfathrebu rheolaidd â</p>	<p>Rydym yn annog staff i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg ac yn cynnwys gofynion y cynllun iaith Gymraeg fel rhan o'n gweithdrefnau sefydlu staff.</p>		

<p>siaradwyr Cymraeg, neu pan fydd gofynion ieithyddol i'r swydd.</p> <p>6.3.3 Bydd geiriaduron a deunyddiau electronig ar gael i helpu aelodau o staff sy'n dysgu Cymraeg.</p> <p>6.3.4 Bydd y Gymdeithas hefyd yn darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth ar gyfer staff o ran gofynion y Cynllun hwn. Ein harfer safonol fydd cynnwys hyfforddiant o'r fath wrth sefydlu staff newydd.</p>	<p>Mae modd i staff ddefnyddio adnoddau dysgu ar-lein.</p> <p>Adolygir anghenion hyfforddiant unigol yn rheolaidd fel rhan o'n cynllun arfarnu staff.</p>		
<p>6.4 Hyfforddiant Galwedigaethol</p> <p>6.4.1 Bydd rheolwyr adnoddau dynol a staff sydd â chyfrifoldeb am hyfforddiant yn asesu'r angen am hyfforddiant galwedigaethol penodol drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer staff.</p>	<p>Adolygir anghenion hyfforddiant unigol yn rheolaidd fel rhan o'n cynllun arfarnu staff.</p>		
<p>6.5 Trefniadau Gweinyddol</p> <p>6.5.1 Mae gan y Cynllun hwn awdurdod, cefnogaeth a chymeradwyaeth lawn y Bwrdd Rheoli. Y Prif Weithredwr sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am weithredu'r Cynllun laith, ac mae gan bob aelod o staff gyfrifoldeb i wybod sut i weithredu'r Cynllun yn effeithiol.</p> <p>6.5.2 Bydd rheolwyr yn gyfrifol am weithredu'r agweddau hynny ar y Cynllun sy'n berthnasol i'w gwaith.</p>	<p>Y Prif Weithredwr sy'n arwain y gwaith o weithredu'r Cynllun laith Gymraeg ac mae'n uniongyrchol atebol i'r Bwrdd. Un o aelodau'r Bwrdd yw Hyrwyddwr Cydraddoldebau'r sefydliad ac mae'n cyflwyno adroddiadau i'r Bwrdd ar y gwaith a wnaed ganddynt.</p>		

<p>6.5.3 Er mwyn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle byddwn yn darparu adnoddau megis geiriaduron, meddalwedd terminoleg Cymraeg a meddalwedd cyfrwng Cymraeg arall ar gyfer staff.</p>	<p>Mae Grŵp Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ar waith sy'n cynnwys aelodau o staff a grŵp tenantiaid (NEADS), ac ymgynghorir ag ef ynglŷn â chydymffurfiaeth â'r Cynllun Iaith Gymraeg.</p> <p>Mae'r Bwrdd wedi cymeradwyo'r Cynllun Iaith Gymraeg ac mae'n derbyn adroddiad monitro blynyddol ar gydymffurfiaeth â'r ymrwymïadau a'r camau pellach sydd eu hangen.</p>		
<p>6.6 Adolygu Gweithrediad y Cynllun</p> <p>6.6.1 Yr uwch swyddog canlynol sy'n gyfrifol am fonitro ac adolygu'r Cynllun hwn:</p> <p>Y Prif Weithredwr, Grŵp Tai Cadarn, Tŷ Cadarn, 5 Village Way, Tongwynlais, Caerdydd CF15 7NE, ffôn 0870 242 0673 neu e-bost enquiries@newydd.co.uk</p> <p>6.6.2 Bydd monitro'r Cynllun hwn yn weithgaredd parhaus a strwythuredig. Bydd hyn yn cynnwys monitro'r meysydd canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • cydymffurfiaeth â'r Cynllun • ansawdd gwasanaeth - ystyried cwynion a'r 	<p>Mae'r Bwrdd wedi cymeradwyo'r Cynllun Iaith Gymraeg ac mae'n derbyn adroddiad monitro blynyddol gan y Prif Weithredwr ar gydymffurfiaeth â'r ymrwymïadau a'r camau pellach sydd eu hangen.</p>		

<p>gwasanaeth rheng flaen</p> <ul style="list-style-type: none"> • rheoli a gweinyddu • digonolrwydd sgiliau ieithyddol - yn seiliedig ar ymrwymadau 6.1-6.4 • prif ffrydio <p>6.6.3 Byddwn yn defnyddio gweithdrefn gwynion safonol y Gymdeithas i gofnodi unrhyw gwynion am y Cynllun hwn ac ymdrin â hwy, ac yn sicrhau y bydd yn bosibl monitro cwynion penodol am y Cynllun.</p> <p>6.6.4 Bydd y Prif Weithredwr yn cyflwyno adroddiad i'r Bwrdd yn flynyddol a bydd yn anfon copi o'r adroddiad i Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Bydd yr adroddiad yn dilyn fformat y cytunwyd arno â'r Bwrdd a bydd yn cynnwys gwybodaeth am natur unrhyw gwynion ac awgrymiadau ar gyfer gwella a dderbyniwyd gan y cyhoedd o ran y Cynllun.</p>	<p>Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion mewn perthynas â'r Cynllun Iaith Gymraeg nag unrhyw un o'r ymrwymadau ynddo ers yr adroddiad monitro diwethaf.</p> <p>Nid awgrymwyd unrhyw welliannau i'r Cynllun Iaith Gymraeg gan aelodau o'r cyhoedd.</p> <p>Caiff yr adroddiad monitro blynyddol ei gyflwyno i Fwrdd yr Iaith Gymraeg.</p>		
<p>6.7 Cyhoeddi Gwybodaeth</p> <p>6.7.1 Byddwn yn cynnwys datganiad yn ein hadroddiad blynyddol yn nodi lle gall aelodau o'r cyhoedd gael copi o'n hadroddiad monitro blynyddol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg.</p>	<p>Nid ydym yn cydymffurfio â'r gofyniad hwn ar hyn o bryd.</p> <p>Rydym yn cyhoeddi'r adroddiad monitro blynyddol hwn ar ein gwefan yn Gymraeg a Saesneg ar ôl i'r</p>	<p>Cydymffurfio â'r gofyniad hwn yn yr Adolygiad Blynyddol nesaf.</p>	<p>Medi 2011</p> <p>Rhagfyr 2011</p>

	Bwrdd ei gymeradwyo.		
<p>6.8 Cyhoeddusrwydd</p> <p>6.8.1 Byddwn yn sicrhau bod aelodau o'r cyhoedd sy'n ymdrin â'r Gymdeithas yn gwybod am y Cynllun hwn a'i gynnwys, a sut y gallant ymdrin â'r Gymdeithas yn Gymraeg.</p> <p>6.8.2 Bydd ein dulliau o roi cyhoeddusrwydd i'r Cynllun a'i gynnwys yn dilyn ein trefniadau cyhoeddusrwydd corfforaethol arferol, a bydd yn cynnwys sicrhau y caiff y Cynllun ei gyhoeddi mewn lle amlwg ar ein gwefan.</p> <p>6.8.3 Byddwn yn sicrhau bod staff ac asiantaethau'r Gymdeithas yn gyfarwydd â'r mesurau a gynhwysir yn y Cynllun er mwyn sicrhau y telir sylw i'r mesurau pan fydd hynny'n briodol.</p>	<p>Rydym wedi cyhoeddi'r Cynllun Iaith Gymraeg ar ein gwefan.</p>	<p>Byddwn yn cynnwys erthygl ar y Cynllun Iaith Gymraeg yn ein cylchgrawn ar gyfer tenantiaid, sef 'In View'.</p>	<p>Ebrill 2012</p>